Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## Cynllun Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi

### Canllawiau i ymgeiswyr

***Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau***

**17.00 ddydd Gwener 10fed Mawrth 2023**

# Canllawiau ar gyfer ceisiadau Cynllun Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

**Pwrpas**

Mae **Cynllun Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** yn gallu darparu cefnogaeth ariannol i'r staff Cefnogi a Chyflenwi hynny sy'n bwriadu ymgymryd â hyfforddiant arbenigol / datblygiad proffesiynol sy'n gysylltiedig â'u rôl cefnogi a chyflenwi y mae'r aelod o staff a'r rheolwr llinell wedi nodi bod ei angen. Gall y ddarpariaeth hyfforddiant arbenigol / datblygiad proffesiynol fod naill ai trwy Sefydliad Addysg Uwch neu drwy ddarparwr hyfforddiant / datblygiad proffesiynol achrededig.

Dylai ceisiadau ddangos datblygiad personol a phroffesiynol i'w gwneud yn fwy effeithiol yn rolau eu swydd bresennol neu rolau swydd yn y dyfodol, a hefyd cyfrannu at nodau ac amcanion strategol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae yna 3 llwybr y gall staff cefnogi a chyflenwi eu defnyddio i fanteisio ar y Cynllun Dysgu a Datblygu:

**Ffrwd A:** Gradd Meistr mewn Ymchwil neu hyfforddiant ymchwil cyfwerth â lefel Meistr mewn iechyd a gofal cymdeithasol cymhwysol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus trwy'r ffrwd hon yn gallu ymgeisio am hyd at 0.2wte tan ddiwedd eu dyfarniad a byddan nhw'n dod yn aelodau o'r Gyfadran fel mater o drefn.

**Ffrwd B:** Cyrsiau datblygu proffesiynol y mae Prifysgol De Cymru'n eu darparu i gefnogi amrywiaeth o gyfrifoldebau rheoli. Mae'r cyrsiau rhithwir sydd ar gael ar gyfer cyllid yn cynnwys:

i. ILM lefel 5 neu lefel 7 mewn Rheoli/ Arwain (https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/Busnes/datblygiad-proffesiynol/arwain-rheoli/)
ii. Rheoli Prosiectau (https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/Busnes/datblygiad-proffesiynol/rheoli-prosiectau-rhaglenni/)
iii. Rheoli Newid (https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/Busnes/datblygiad-proffesiynol/rheoli-prosiectau-rhaglenni/)
iv. Hyfforddi a Mentora (Rhaglenni hyfforddiant Hyfforddi a Mentora | Prifysgol De Cymru)
v. Cyrsiau Byr Datblygiad Proffesiynol eraill (https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/Busnes/datblygiad-proffesiynol/cyrsiau-byr/)

Sylwch, caiff yr holl gyrsiau a ddarperir trwy'r Academi Dysgu Dwys (ILA) eu cyflenwi'n rhithwir a chynghorir yn gryf bod yr holl staff sy'n ystyried ymgeisio trwy'r ffrwd hon naill ai'n mynychu'r Sesiynau Gwybodaeth ar 17eg Chwefror neu'n ceisio cyngor oddi wrth staff Prifysgol De Cymru ynglŷn â pha gwrs fyddai'r un mwyaf addas iddyn nhw.

**Ffrwd C:** Unrhyw gwrs arall sy'n gysylltiedig â'r rôl neu hyfforddiant arbenigol/ datblygiad proffesiynol y mae'r aelod o staff a'r rheolwr llinell wedi'i nodi. Gall hyn fod gan unrhyw ddarparwr achrededig (o ddewis, yng Nghymru).

*Bydd angen i unrhyw gais am gyllid ddangos rhesymeg gref dros y cwrs a ddewisir. Bydd gofyn i bob ymgeisydd wneud cais neu archeb dilynol i'r cwrs penodol a amlinellir yn eu cais, unwaith y cytunir ar gyllid trwy'r Cynllun Dysgu a Datblygu.*

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau oddi wrth staff Cefnogi a Chyflenwi ar bob lefel.

**Cymhwysedd i ymgeisio am ddyfarniad y Cynllun Dysgu a Datblygu**

Nod Cynllun Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ydy hybu cyfle cyfartal i staff sy'n gweithio yn Swyddfeydd Y&D y GIG, staff Cyflenwi Ymchwil y mae'r GIG yn eu cyflogi a staff y Ganolfan Cefnogi a Chyflenwi.
Felly mae'n rhaid i'r rheini sy'n ymgeisio i'r Cynllun Dysgu a Datblygu ddangos:

- eu bod yn gweithio mewn sefydliad Cefnogi a Chyflenwi ac yn cael eu rheoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (trwy eu rheolwr llinell) gan: **Gyfarwyddwr Y&D/ Rheolwr Y&D mewn Swyddfa Y&D y GIG *NEU*'r Pennaeth Cyflenwi Ymchwil perthnasol *NEU* Bennaeth y Ganolfan Cefnogi a Chyflenwi.**

- rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn rhan o Gynllun Gwariant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ôl statws ariannu lleol. Gellir ceisio cyngor ar hyn oddi wrth y rheini yn y swyddi uwch a nodir uchod.

Dim ond y staff hynny sy'n ymgeisio ar gyfer gradd Meistr mewn Ymchwil neu hyfforddiant ymchwil cyfwerth â lefel Meistr mewn iechyd a gofal cymdeithasol cymhwysol sy'n gymwys i ymgeisio am gyllid i wneud iawn am yr amser i ymgymryd â'u cwrs (hyd at 0.2wte).

**Nid** yw staff GIG neu brifysgol sy'n gweithio ar astudiaethau ymchwil, ac sy'n cael eu rheoli ar wahân i'r strwythur rheoli Cefnogi a Chyflenwi, yn gymwys i ymgeisio i'r Gronfa Dysgu a Datblygu.

Dylai ymgeiswyr fel rheol ddisgwyl cwblhau eu cwrs astudiaeth gyda phrifysgol yng Nghymru / darparwr cwrs yng Nghymru os oes cwrs ar gael. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr gyfiawnhau yn llawn eu cais i astudio gyda darparwr y tu allan i Gymru.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Y Weithdrefn Ymgeisio**

1. Llenwch Ffurflen Gais y Cynllun Dysgu a Datblygu, a chynnwys dolen i dudalennau gwe y cwrs
2. Os yn ymgeisio trwy Ffrwd A, nodwch y sefydliad addysg uwch o'r dewis cyntaf a'r ail ddewis ar gyfer y cwrs rydych chi'n dymuno'i ddilyn; nid oes angen 2 ddewis ar gyfer Ffrwd B neu C
3. Gofynnwch i'ch rheolwr llinell am e-bost sy'n datgan eu bod yn cadarnhau eu bod wedi darllen y canllawiau, yn cefnogi'ch cais ac yn fodlon darparu'r amser i ffwrdd i astudio sydd ei angen i gwblhau eich astudiaethau (darperir templed yn Atodiad 1)
4. Anfonwch e-bost gan atodi'r ffurflen wedi'i llenwi, eich CV gan ddefnyddio'r templed a ddarperir ac e-bost cadarnhau eich rheolwr llinell (**a chynnwys yr uwch reolwr cefnogi a chyflenwi yn llinell copi'r e-bost**) i Research-training@wales.nhs.uk **erbyn 17.00 ddydd Gwener 10fed Mawrth 2023**

**Y Panel Dyfarnu**

Bydd y panel dyfarnu'n cyfarfod ar ddiwedd mis Mawrth 2023 ac mae'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o sefydliadau cefnogi a chyflenwi, yn ogystal ag aelodau â chymwysterau a phrofiad addas sy'n cynrychioli'r cynllun Dysgu a Datblygu a'r Gyfadran. Bydd y panel yn ystyried pob cais, gan sgorio'r ceisiadau ar sail y wybodaeth yn y datganiadau ategol. Manylir ar feini prawf sgorio'r panel yn Atodiad 3.

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr trwy e-bost am ganlyniad y cais erbyn **31ain Mawrth 2023** fan bellaf. Dyfernir rhwng 50% a 100% o'r cyllid yr ymgeisiwyd amdano i'r ymgeiswyr llwyddiannus, gan ddibynnu ar gryfder y datblygiad personol a phroffesiynol a chryfder y cais o ran cyfrannu at nodau ac amcanion Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (Atodiad 3).

Os dyfernir cyllid i gefnogi cwrs ar lefel Meistr neu hyfforddiant sy'n para'n hirach na blwyddyn, bydd yr ymgeiswyr â'r sgôr uchaf yn derbyn 100% o'r cyllid ar gyfer tymor llawn yr astudiaeth o'r gyllideb sydd ar gael, a bydd hyn yn galw am dystiolaeth/ adolygiad blynyddol gan y Sefydliad Addysg Uwch/ darparwr hyfforddiant dethol i gefnogi cyllid bob blwyddyn. Delir yr arian fel grant i'w gyrchu pob blwyddyn i dalu'r ffioedd y bydd y Sefydliad Addysg Uwch/ darparwr hyfforddiant yn darparu anfoneb ar eu cyfer yn uniongyrchol.

Os dyfernir cyllid i gefnogi unrhyw gwrs hyfforddiant/ datblygiad proffesiynol arall, darperir yn cyllid yn llawn i dalu am holl ffioedd y cwrs.

Os ariennir llai na 100% o ffioedd y cwrs, mae ymgeiswyr yn rhydd i edrych am lwybrau eraill i ddarparu'r swm atodol, gan gynnwys ymgeisio am fenthyciad graddedig neu ôl-raddedig. Bydd tudalennau ffioedd a chyllid y brifysgol ddethol yn rhoi rhagor o fanylion.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn adborth ysgrifenedig ynglŷn â pham roedd y cais yn aflwyddiannus, a byddan nhw'n gallu defnyddio'r adborth i ymgeisio eto mewn galwadau yn dyfodol.

*Os y bydd aelod o'r panel yn ymgeisio am ddyfarniad cyllid ar gyfer ei (d)datblygiad ei hun, bydd yn gallu sgorio pob cais heblaw am ei gais/ ei chais ei hun.*

*Os y bydd yna fuddiannau sy'n gwrthdaro, fel cais aelod o staff, gall yr aelod o'r panel ddatgan 'gwrthdrawiad buddiannau' a dewis sgorio/ peidio â sgorio'r cais hwnnw. Yr unig amser y gwrthodir sgôr aelod o'r panel yw pan y mae'r aelod hwnnw'n rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymgeisydd. Mae hyn yn ystyried safonau gwasanaeth cyhoeddus:*

https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/egwyddorion-nolan/

## Cefnogaeth y rheolwr llinell

Mae cefnogaeth y rheolwr llinell yn hanfodol wrth i'r panel ystyried dyfarniad. Dylai rheolwyr llinell anfon e-bost ar yr un pryd ag y mae'r ffurflen gais yn cael ei hanfon. Darperir templed ar gyfer yr e-bost yn Atodiad 1.

## Tystysgrif Gadarnhau

Bydd yn rhaid i bawb sy'n derbyn dyfarniad o'r Cynllun Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi lenwi a dychwelyd Tystysgrif Gadarnhau yn ddi-oed i gadarnhau:

- Eu bod yn derbyn y dyfarniad o'r Cynllun Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi
- Eu bod yn datgan unrhyw ddyfarniadau cyllid eraill y byddan nhw'n eu derbyn ar gyfer y cwrs astudio
- Eu bod yn derbyn Telerau ac Amodau'r dyfarniad fel y manylir arnyn nhw yn y ddogfen gyfarwyddyd hon (Atodiad 2)
- Eu bod yn derbyn bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cadw'r hawl i dynnu cyllid cytunedig yn ôl os na fodlonir y Telerau ac Amodau y manylir arnyn nhw yn Atodiad 2

**Trefniadau anfonebu**

Telir sefydliad yr astudiaeth yn uniongyrchol pan dderbynnir anfoneb wedi'i hanfon i: research-training@wales.nhs.uk

**Cyfeiriad ar gyfer anfonebau:**

**Canolfan Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil iechyd a Gofal Cymru**
**d/o Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**
**Pont-y-castell 4**
**15-19 Heol Ddwyrain y Bontfaen**
**Caerdydd**
**CF11 9AB**

**Rhaid i'r rheini sy'n derbyn dyfarniad sicrhau bod adran gyllid sefydliad yr astudiaeth yn meddu ar y manylion anfonebu cywir, gan roi gwybod iddyn nhw y bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn eu noddi. Bydd methu â chydymffurfio â hyn yn golygu na fydd ffioedd cwrs yn cael eu talu'n brydlon.**

Dan amgylchiadau arferol, ni fydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n gallu talu mwy na'r swm a ddyfarnwyd. Os y bydd gwariant y dyfarniad mewn gwirionedd yn llai na chyfanswm y dyfarniad a gynigiwyd, bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cadw'r balans (mae'r cyllid ar gael at y dibenion y manylwyd arnyn nhw ar y ffurflen gais yn unig, ac ni ellir ei drosglwyddo). Os ydy'r cyllid yn uwch na'r hyn yr ymgeisiwyd amdano'n wreiddiol (er enghraifft, cynnydd yn y ffioedd), bydd y panel dyfarnu'n adolygu pob achos ar wahân, gan hefyd ystyried pa adnoddau sydd ar gael. Er mwyn osgoi'r naill sefyllfa a'r llall, anogir ymgeiswyr yn gryf i ymchwilio i'r agwedd ariannol yn drylwyr a sicrhau bod anfonebau'n cael eu hanfon yn brydlon.

**Atodiad 1: Templed ar gyfer e-bost oddi wrth y Rheolwr Llinell**

Fel rheolwr llinell [ymgeisydd] rydw i'n cadarnhau:

- Bod yr hyfforddiant/ datblygiad proffesiynol hwn yn rhan o PADR presennol yr ymgeisydd / Bydd yr hyfforddiant/ datblygiad proffesiynol hwn yn cael ei gynnwys yn PADR yr ymgeisydd pan fydd y cyfle nesaf yn codi (dilëwch fel bo'n briodol)

- Bod yr ymgeisydd hwn/ hon wedi'i gynnwys/ ei chynnwys fel rhan o Gynllun Gwariant GIG Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Y byddai'r cais hwn yn cael ei ariannu pe bai digon o gyllid ar gael o fewn cyllideb ein hadran/ sefydliad ein hunain

- Y bydd y cais hwn yn cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion strategol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fel y mae'r ymgeisydd yn sôn amdano

- Fy mod wedi trafod yr amser y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ymrwymo iddo ac wedi cytuno ei r(h)yddhau am yr amser sydd ei angen i fynychu a chwblhau'r rhaglen astudio trwy gytuno ar amser i ffwrdd i astudio a/ neu ôl-lenwi amser yr aelod o staff

(Dylid hefyd cynnwys unrhyw wybodaeth bellach i gefnogi'r cais)

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Atodiad 2: Amodau a thelerau

### Methu â chwblhau cwrs astudio

Dylai deiliaid dyfarniad roi gwybod i'w rheolwr llinell cyn gynted â phosibl am unrhyw amgylchiadau a allai effeithio ar gwblhau'r astudiaeth arfaethedig. Dylid anfon datganiad byr, wedi'i lofnodi gan y rheolwr llinell, at y panel dyfarnu. Bydd y panel yn asesu pob achos unigol i gefnogi'r ymgeisydd i gwblhau'r cwrs astudio ac i newid telerau dyfarniad y Cynllun Dysgu a Datblygu. Os y bydd unigolyn yn methu â chwblhau'r cwrs astudio cynlluniedig heb roi gwybod i'w r(h)eolwr llinell neu heb roi digon o rybudd, yna mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cadw'r hawl i dynnu'r dyfarniad yn ôl neu i adfer y costau yn unol â pholisi cyllid presennol y GIG.

Mae'n bosibl y bydd deiliaid dyfarniad sy'n methu â mynychu sesiynau dynodedig eu cwrs yn gorfod talu ffioedd y cwrs a ffioedd canslo, lle bo'n berthnasol.

### Gwerthuso a chefnogi Dyfarniadau'r Cynllun Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gyflwyno adroddiad terfynol byr ac, yn achos astudiaethau sy'n para am gyfnodau hirach, cytunir ar amserlen ar gyfer adroddiadau ar gynnydd. Bydd adroddiadau'n cadarnhau'r cwrs astudiaeth a gwblhawyd a deilliant y cwrs (er enghraifft, gradd pasio, teitl y traethawd, modiwl a gwblhawyd neu ddeilliant asesu). Rhaid i'r adroddiad hefyd fyfyrio ynglŷn â'r datganiad gwreiddiol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais i gadarnhau a ddiwallwyd yr anghenion dysgu ai peidio.

Bydd staff cefnogi a chyflenwi sy'n derbyn cyllid i gefnogi gradd Meistr mewn Ymchwil neu hyfforddiant ymchwil cyfwerth â lefel Meistr mewn iechyd a gofal cymdeithasol cymhwysol yn derbyn aelodaeth o Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fel mater o drefn ac, yn gysylltiedig â hyn, bydd cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus ar gael iddyn nhw. Darperir cyfleoedd ar gyfer pawb arall sydd â dyfarniad o'r Cynllun Dysgu a Datblygu i rwydweithio â chyfoedion a chael cefnogaeth o fewn y cohort o ddeiliaid dyfarniad Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi.

### Deiliaid dyfarniad sy'n gadael y sefydliad Cefnogi a Chyflenwi sy'n eu cyflogi

Os y bydd deiliad dyfarniad yn gadael y sefydliad Cefnogi a Chyflenwi sy'n ei gyflogi/ei chyflogi, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cadw'r hawl i dynnu'r cyllid cytunedig yn ôl. Byddai enghreifftiau o'r fath yn cael eu hadolygu fesul achos i sicrhau na fyddai deiliaid dyfarniad yn cael eu cosbi am symud i sefydliad ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol sy'n bartner. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y ceisir adfer costau dyfarniad. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys cyflogeion yn symud y tu allan i'r DU neu'n gadael cyflogaeth yn llwyr. Byddai costau dyfarniad yn cael eu hadfer dan amgylchiadau eithriadol o'r fath yn unol â pholisi cyllid presennol y GIG.

## Atodiad 3 – Cynllun Dysgu a Datblygu Cefnogi a Chyflenwi – Meini prawf sgorio'r panel 2023

| Meini prawf ymgeisio | Rhagorol | Da | Boddhaol | Gwael |
|---|---|---|---|---|
| ***1. Mae'r ymgeisydd wedi disgrifio sut y bydd deilliannau'r cwrs yn diwallu ei (h)anghenion datblygu personol.***<br><br>Dylai'r ymgeisydd fanylu ar anghenion datblygu personol clir y mae eisiau eu datblygu, a gwneud cysylltiadau uniongyrchol â sut y cyflawnir y rhain o fewn ei gwrs/ei chwrs astudio dethol. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a sgiliau i wella hunanymwybyddiaeth, sgiliau rhyngbersonol, sgiliau astudio, sgiliau gwneud penderfyniadau, hyder, meddwl yn feirniadol, myfyrio, sgiliau ysgrifennu, gweithio mewn tîm, mentora ac ati.<br><br>Gall hyn hefyd gynnwys datblygu sgiliau arwain a rheoli pan nad oes gofyn penodol am hyn yn ei rôl bresennol.<br><br>Dylai'r ymgeisydd ddangos ymwybyddiaeth bod hunanddatblygiad yn ddeilliant dysgu pwysig. | **(9-10)**<br><br>Anghenion datblygu personol clir wedi'u nodi.<br><br>Cysylltiad clir rhwng y cwrs a'r anghenion dynodedig.<br><br>Yn dangos ymwybyddiaeth lawn o'r angen i ddatblygu ei hun fel rhan o ddysgu. | **(6-8)**<br><br>Anghenion datblygu personol clir wedi'u nodi.<br><br>Yn cysylltu anghenion dynodedig â'r cwrs astudio dethol.<br><br>Yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu ei hun fel rhan o ddysgu. | **(3-5)**<br><br>Rhywfaint o ymdrech i nodi anghenion datblygu proffesiynol a / neu eu trafod yng nghyd-destun y cwrs astudio dethol.<br><br>Yn dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o'r angen i ddatblygu ei hun fel rhan o ddysgu. | **(0-2)**<br><br>Dim anghenion datblygu personol wedi'u nodi nac wedi ystyried sut y gallai'r cwrs hwyluso hyn.<br><br>Ddim yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu ei hun fel rhan o ddysgu. |
| ***2. Mae'r ymgeisydd wedi disgrifio sut y bydd deilliannau'r cwrs yn diwallu ei (h)anghenion datblygu proffesiynol o ran ei (g)wneud yn fwy effeithiol yn ei rôl.***<br><br>Dylai'r ymgeisydd fanylu ar y wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol clir, penodol i'w rôl, y mae eisiau eu datblygu a gwneud cysylltiadau uniongyrchol â sut y cyflawnir y rhain o fewn ei gwrs/ei chwrs astudio dethol. Gall hyn gynnwys methodoleg ymchwilio, dadansoddi ystadegau a data, llywodraethu ymchwil, sicrhau ansawdd, sgiliau clinigol, sgiliau prosiect, sgiliau cyllid ac ati.<br><br>Gall hyn hefyd gynnwys datblygu sgiliau arwain a rheoli pan fo gofyn penodol am hyn yn ei rôl bresennol. | **(9-10)**<br><br>Anghenion datblygu proffesiynol clir wedi'u nodi.<br><br>Cysylltiad clir rhwng y cwrs a'r anghenion dynodedig.<br><br>Yn dangos ymwybyddiaeth lawn o'r angen i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau penodol i'r rôl fel rhan o ddysgu. | **(6-8)**<br><br>Anghenion datblygu proffesiynol clir wedi'u nodi.<br><br>Yn cysylltu anghenion dynodedig â'r cwrs astudio dethol.<br><br>Yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau penodol i'r rôl fel rhan o ddysgu. | **(3-5)**<br><br>Rhywfaint o ymdrech i nodi anghenion datblygu proffesiynol a/ neu eu trafod yng nghyd-destun y cwrs astudio dethol.<br><br>Yn dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o'r angen i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau penodol i'r rôl fel rhan o ddysgu. | **(0-2)**<br><br>Dim anghenion datblygu proffesiynol wedi'u nodi nac wedi ystyried sut y gallai'r cwrs hwyluso hyn.<br><br>Ddim yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau penodol i'r rôl. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r ymgeisydd ddangos ymwybyddiaeth bod datblygiad sy'n benodol i'w rôl yn ddeilliant dysgu pwysig. | | | | |
| ***3. Mae'r ymgeisydd wedi disgrifio sut y bydd deilliannau'r cwrs yn cyfrannu at ei (d)dyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol.***<br><br>Dylai'r ymgeisydd fanylu ar ei (d)dyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol, a gwneud cysylltiadau uniongyrchol â sut y bydd y cwrs astudio dethol yn cyfrannu at y rhain.<br><br>Gall hyn gynnwys naill ai dyheadau tymor byr neu rai tymor hir, ac ymwneud â dyheadau o fewn rôl bresennol yr ymgeisydd a / neu ymwneud â'i rolau yn y dyfodol. | **(9-10)**<br><br>Datganiad clir o ddyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol.<br><br>Cysylltiad clir rhwng y cwrs a dyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol. | **(6-8)**<br><br>Datganiad clir o ddyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol gan wneud chysylltiadau â'r cwrs astudio dethol. | **(3-5)**<br><br>Rhywfaint o ymdrech i nodi dyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol a / neu eu trafod yng nghyd-destun y cwrs astudio dethol. | **(0-2)**<br><br>Dim ymdrech i nodi dyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol nac wedi ystyried sut y gallai'r cwrs hwyluso hyn. |
| ***4. Mae'r ymgeisydd wedi disgrifio sut y mae'r cwrs yn cyfrannu at un neu fwy o nodau ac amcanion Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.*** | **(9-10)**<br><br>Wedi nodi'r nod(au) a'r amcan(ion) perthnasol yn glir.<br><br>Cysylltiad clir rhwng y cwrs a'r nod(au) a'r amcan(ion) dynodedig.<br><br>Yn dangos ymwybyddiaeth lawn o'r angen i sicrhau bod y dysgu'n cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. | **(6-8)**<br><br>Wedi nodi'r nod(au) a'r amcan(ion) perthnasol yn glir.<br><br>Wedi gwneud cysylltiadau â'r cwrs astudio dethol.<br><br>Yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau bod y dysgu'n cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. | **(3-5)**<br><br>Rhywfaint o ymdrech i nodi nod(au) ac amcan(ion) perthnasol a / neu eu trafod yng nghyd-destun y cwrs astudio dethol.<br><br>Yn dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o'r angen i sicrhau bod y dysgu'n cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. | **(0-2)**<br><br>Dim ymdrech i nodi nod(au) ac amcan(ion) perthnasol a / neu eu trafod yng nghyd-destun y cwrs astudio dethol. |

## Gellir gweld nodau ac amcanion Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar y wefan:

https://ymchwiliechydagofalcymru.org/amdanom-ni/ein-gweledigaeth-ein-nodau-hamcanion